Nid brigyn mohono

Trosolwg

Mae byd natur a deunyddiau naturiol yn darparu adnoddau cyfoethog ar gyfer archwilio lleferydd ac iaith. Gall dysgu geirfa newydd mewn cyd-destun helpu plant i wneud synnwyr o'u byd.



Gweithgareddau

Darllenwch 'Not a Stick' gan Antoinette Portis. Anogwch y plant i archwilio'r ardd a dewis eu hoff frigyn. Efallai fod gennych frigau'n barod yn eich man awyr agored, ond os nad oes, gallwch gasglu rhai wrth fynd am dro neu gallwch ddarparu amrywiaeth ohonynt i'w gwasgaru ar hyd eich gardd. Defnyddiwch yr ymadrodd a ailadroddir yn y llyfr i annog y plant i chwarae rôl, adrodd straeon, a dechrau datblygu eu dychymyg, 'Nid brigyn mohono, ond...?' Dathlwch eu syniadau ac ymhelaethwch arnynt.

Offer

- Llyfr lluniau 'Not a Stick' gan Antoinette Portis
- Dewis o frigau a darnau diddorol a chnotiog o bren

Cwestiynau allweddol

'Nid brigyn mohono, ond…?'
Pam gwnest di ddewis y brigyn hwn?
Beth arall gallai'r brigyn hwn fod/gallai'r brigyn hwn ei wneud?
Ble gwnest di ddod o hyd iddo?
Beth sy'n digwydd nesaf?

Deilliannau dysgu

- Chwarae – chwarae dychmygus, chwarae rôl, chwarae sgarmes
- Llythrennedd – siarad, gwrando, adrodd straeon a rhannu syniadau

Symud y dysgu yn ei flaen

Archwiliwch naratif arall sy'n cynnwys brigau (Brig-ddyn).
Anogwch y plant i chwarae'n gydweithredol drwy gyflwyno a chyfuno eu syniadau â'u brigau.